

Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB34.2a - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2020 trwy Microsoft Teams

Presennol:

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha (Eitem 7 Ymlaen), Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Presennol:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Kay Powell (EKP), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG) – Eitem 6, Oliver Stacy (OS) – Eitem 6, Catrin Verrall (CV) – Eitem 6, Lizzie Swaffield (LS) – Eitem 6, Kerry Price (KP) – Eitemau 4 & 7, Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:

Nodwyd y byddai Arun Midha yn ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, ond nodwyd y byddai Arun Midha yn ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.
- 1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant y tu hwnt i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y gofrestr.

2. Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 a 14 Mai.

- 2.1 Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod Bwrdd CC a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020 fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar y diwygiad a ganlyn:
 - Eitem 2.10 – Ail-eirio i: 'Croesawodd y Bwrdd y cyfle i weld y cynigion sy'n datblygu ac awgrymodd ystyried egwyddorion arweiniol lefel uchel neu "linellau coch" ar gyfer y cynigion, er enghraifft, peidio â lleihau cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghymru yn niweidiol neu y dylai'r cynigion fod yn cael eu hystyried yn gredadwy i'r system addysg yng Nghymru.'
- 2.2 Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod Bwrdd CC a gynhaliwyd ar 14 Mai 2020 fel cofnod gwir a chywir.
- 2.3 Roedd y camau gweithredu o Gyfarfod Bwrdd CC a gynhaliwyd ar 14 Mai 2020 i gyd wedi'u cwblhau, nodwyd y rhain gan y Bwrdd.

Crynodeb:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y ddwy set o gofnodion.
- ii. Nododd y Bwrdd y camau gweithredu a gwblhawyd.

3. Adroddiad Sicrwydd ARAC

- 3.1 Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan nodi eu diolch i'r sawl a gymerodd ran am y gwaith a wnaed.

Crynodeb:

- i. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

4. Cyfrifon**QWB31.4a Cyfrifon Blynyddol 2019-20**

- 4.1 Nododd y Bwrdd eu diolch i'r Tîm Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ("ARAC") am yr holl waith caled a wnaed i gynhyrchu'r cyfrifon.
- 4.2 Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod perthynas waith dda yn bodoli rhwng CC a'r archwilwyr allanol a mewnol. Croesawodd KP yr her adeiladol a ddarparwyd gan Archwilio Cymru a nodwyd bod TIAA wedi diweddarau ARAC gyda gwybodaeth ddefnyddiol trwy gydol y flwyddyn. Roedd Archwilio Cymru hefyd wedi siarad yn gadarnhaol, gyda chanmoliaeth am y ffordd y paratôdd CC ei gyfrifon ac ansawdd ei wybodaeth.

Crynodeb:

- i. Ystyriodd Bwrdd CC y mater a rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r cyfrifon blynyddol.

QWB31.4b Adroddiad Datganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli Archwilio Cymru

- 4.4 Nododd y Bwrdd yr un argymhelliad gan Archwilio Cymru ynghylch y trefniadau ar gyfer cofnodi Cofrestr Buddiannau aelodau'r Bwrdd. Gan fod hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y Cyfrifon, argymhellwyd sefydlu proses gasglu a gwirio fwy ffurfiol.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd yr argymhelliad gan Archwilio Cymru.

5. Datblygu Strategaeth – Ffocws ar Gymwysterau Galwedigaethol

- 5.1 Darparodd CT y cyd-destun ar gyfer bwrw ymlaen â rhaglen o Adolygiadau Sector Cam Dau. Byddai'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar ddau faes: a oedd y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn gynaliadwy mewn sector ac argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai CC yn edrych ar ba gamau y gellid eu cymryd pe bai problemau yn cael eu nodi.
- 5.2 Holodd y Bwrdd ynghylch defnyddio staff pe bai problemau Covid-19 yn parhau i 2021. Cadarnhaodd CT fod y cynigion yn hyblyg ac y gellid eu newid yn unol â blaenoriaethau'r sefydliad. Yr unig gyfyngiad posibl fyddai ystyried effaith newidiadau polisi cymwysterau ledled y DU.
- 5.3 Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd y byddai'r gwaith ar Deithio a Thwristiaeth yn parhau. Nododd CT y gallai'r adolygiad Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyio arfaethedig naill ai gael ei gyflawni ar ffurf yr adolygiadau blaenorol neu y gellid ei gyflawni o dan ddull Cam 2. Cadarnhaodd CT y byddai'r dilyniant o Adolygiadau Sector yn cael ei ystyried yn yr Hydref ar ôl deall pa adnoddau fyddai ar gael ac a oedd yr amseriad yn iawn i'r sector hwn.
- 5.4 Holodd y Bwrdd y gostyngiad arfaethedig yn nifer y cyfarfodydd gyda chyflogwyr unigol yn yr Adolygiadau Sector Cam 2, gan nodi bod cyfranogiad cyflogwyr yn y prentisiaethau arloesol yn Lloegr wedi bod yn fuddiol ar y cyfan. Cadarnhaodd CT fod hyn wedi bod yn ystyriaeth bwysig pan ddatblygwyd y cynigion. Nodwyd byddai ymgysylltu â chyflogwyr yn dal i fod yn agwedd bwysig ond byddai'n cael ei gyflawni'n fwy effeithlon, gan nodi er gwaethaf anawsterau parhaus oherwydd Covid-19, roedd ymgysylltu â chyflogwyr wedi dod yn haws gan fod cyfarfodydd ar-lein yn caniatáu i CC fod yn fwy effeithlon o ran sut roedd yn ymgysylltu â chyflogwyr. Byddai CC hefyd yn disgwyl i Gyrff Dyfarnu ymgysylltu â chyflogwyr wrth iddynt ddatblygu cymwysterau.
- 5.5 Gofynnodd y Bwrdd sut y byddai Cymwysterau Galwedigaethol yn cael eu hystyried fel rhan o'r ystod o gymwysterau a gynigir i bobl ifanc 14 i 16 oed yn y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol ("QFF"). Cadarnhaodd CT y byddai ystyried ystod briodol o Gymwysterau Galwedigaethol yn cael ei integreiddio i gynigion ar gyfer QFF.
- 5.6 Holodd y Bwrdd a oedd unrhyw gymwysterau uwchlaw lefel 3 y dylai CC eu hystyried. Nodwyd bod y dull yn hyblyg ac y gallai ymateb i angen. Fodd bynnag, byddai'r ffocws ar gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed gan mai dyma lle'r oedd yr angen mwyaf.
- 5.7 Holodd y Bwrdd y dysgu cyfyngedig o astudiaethau rhyngwladol. Esboniodd CT fod ymdrech ac adnoddau wedi'u rhoi i'r rhain, ond roedd y canfyddiadau wedi bod yn siomedig ar y cyfan o ystyried bod cyd-destunau cenedlaethol yn amrywio cymaint. Cytunodd CT i adolygu'r opsiynau.

- 5.8 Holodd y Bwrdd am ddiffyg adolygiad sector ar gyfer gwyddorau bywyd a rheolaeth amgylcheddol. Cydnabu CT yr awgrymiadau a chytunodd i edrych i mewn i sut y gellid ystyried y rhain.
- 5.9 Amlygodd y Bwrdd yr effaith enfawr y byddai technoleg ddigidol yn ei chael mewn nifer fawr o wahanol feysydd pwnc. Cydnabu CT y sylwadau a chytunodd y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiadau.
- 5.10 Holodd y Bwrdd a fyddai'r rhanddeiliaid yn y sectorau hynny'n teimlo bod y newid yng nghwmpas Adolygiadau Sector Cam 2 yn un negyddol. Cydnabuwyd y gallai fod rhai canfyddiadau negyddol, ond bod angen cydbwysu hyn â gwneud cynnydd cyflymach trwy leihau cwmpas yr adolygiadau. Byddai'r broses yn dal i fod yn 'adolygiad sector'. Ar ôl pwysu a mesur, roedd CC yn hyderus y byddai'r cwmpas diwygiedig yn ddigonol i ateb y prif faterion.
- 5.11 Holodd y Bwrdd yr asesiad o argaeledd cyfredol a thebygol cymwysterau mewn prentisiaethau a gofynnodd a oedd CC yn ymwybodol o'r gwaith parhaus a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd CT fod CC yn ymgysylltu'n weithredol â Thîm LIC sy'n ymwneud â phrentisiaethau. Byddai aelod o staff CC yn mynychu Cyfarfodydd Grŵp Llywio ar gyfer pob Fframwaith ac roedd CT yn aelod o Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru.

Crynodeb:

- i. Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd CC y cynnig i fwrw ymlaen â chyfres o Adolygiadau Sector Cam 2.

6. Cymwys ar gyfer y Dyfodol (Diwygio'r Cwricwlwm)

Llwybrau at Ddiogelu Argaeledd Cymwysterau'r Dyfodol

- 6.1 Atgoffodd EG y Bwrdd eu bod wedi ystyried llwybrau i sicrhau cymwysterau lefel TGAU newydd dros flwyddyn yn ôl, ond roedd bellach yn briodol adolygu'r mater o'r ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau. Esboniodd CV fod dau brif lwybr a fyddai'n caniatáu i CC sicrhau cymwysterau TGAU newydd - trwy ddefnyddio meini prawf cymeradwyo i ennyn ymateb gan y farchnad, neu drwy gyfyngu ar y farchnad a chomisiynu cyrff dyfarnu penodol i ddatblygu'r cymwysterau angenrheidiol. Roedd y defnydd o 'ddethol' wedi'i ddiystyru fel llwybr posibl ar gyfer sicrhau'r prif gymwysterau TGAU 'a wnaed ar gyfer Cymru', gan nad oedd yn caniatáu rheolaeth ddigonol i CC dros ddyluniad cymwysterau unigol. Nid oedd dethol wedi'i ddiystyru fel llwybr ar gyfer sicrhau cymwysterau eraill a allai fod yn rhan o'r cynnig ehangach. Nododd CV fod wyth nod wedi'u cynnig fel sail ar gyfer gwerthuso addasrwydd gwahanol llwybrau.

- 6.2 Holodd y Bwrdd beth oedd y gwahaniaeth rhwng comisiynu a dethol. Esboniodd CV y gellid defnyddio dethol lle gallai cymhwyster presennol fodloni gofyniad. Roedd comisiynu yn briodol pan oedd y gofyniad i ddatblygu cymhwyster newydd. Ychwanegodd EG mai pwrpas y drafodaeth oedd edrych ar y ffordd orau y gallai CC sicrhau cymwysterau TGAU pwrpasol a wnaed ar gyfer Cymru.
- 6.3 Holodd y Bwrdd a fyddai'r drafodaeth yn cynnwys Cymwysterau Galwedigaethol neu a oedd yn ymwneud yn unig â'r cynnig TGAU. Cadarnhaodd CV fod y papur yn ymwneud yn unig â chymwysterau TGAU ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd cwmpas y prosiect yn ehangach, a byddai ystyriaeth yn y dyfodol i'r hyn y gallai cynnig ehangach ei gynnwys a sut orau y gellid sicrhau hynny.
- 6.4 Holodd y Bwrdd a ellid defnyddio'r ddau lwybr ar gyfer gwahanol grwpiau o gymwysterau ac a fyddai unrhyw rwystrau rhag gwneud hynny. Cadarnhaodd CV fod opsiwn cyfuno hefyd yn cael ei archwilio yn ystod cam nesaf y gwaith. Roedd pob un o'r ddau lwybr wedi cael eu hystyried ar wahân, fodd bynnag, byddai angen gwneud gwaith pellach yn ogystal ag asesiad effaith cyn bod mwy o fanylion ar gael.
- 6.5 Holodd y Bwrdd sut y gellid cynnwys hyblygrwydd mewn unrhyw fanyleb fel y gellir sicrhau mwy o ddefnydd o dechnoleg dros amser. Cadarnhaodd CV fod arloesi digidol yn un o'r wyth maen prawf a awgrymwyd i ystyried pa lwybr y dylid ei ddewis.
- 6.6 Holodd y Bwrdd pam y byddai'r llwybrau a awgrymir yn addas ar gyfer rhai cymwysterau ond nid pob un a gofynnodd am y dynodiad. Esboniodd CT fod dynodiad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau a oedd wedi'u datblygu y tu allan i Gymru ond a oedd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Roedd hyn fel arfer oherwydd nad oedd yn hyfyw i Gorff Dyfarnu ddatblygu'r cymhwyster hwnnw yn benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru ac felly byddai defnyddio llwybr amgen yn caniatáu ar gyfer ystod ehangach o gymwysterau i ddysgwyr.
- 6.7 Esboniodd CV y gwaith modelu a wnaed ar niferoedd posibl o ddysgwyr a maint tebygol y newid ymhob maes pwnc. Byddai gwaith pellach yn cael ei gwblhau ac ym mis Tachwedd byddai'r Bwrdd yn cael argymhelliad ar y llwybr(au) a ffefrir, y grwpio a'r cyflwyniad. Nodwyd y byddai'r penderfyniad yn seiliedig ar gydbwysedd o risgiau. Ar yr adeg hon, byddai tystiolaeth bellach ar gael gan gynnwys Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a chynlluniau ar gyfer gweithredu'r llwybrau a argymhellir. Ychwanegodd EG y byddai CC wedyn yn gwybod mwy am natur y cynigion mewn perthynas â chymwysterau eraill ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed.

QWB31.6a/b Diweddariad ar Gynigion ar gyfer yr Ystod Cymwysterau yn y Dyfodol

- 6.9 Esboniodd OS fod cynigion ar gyfer pob un o'r MDaPh wedi'u datblygu a'u mireinio ymhellach. Digwyddodd hyn trwy ddeialog broffesiynol gyda rhanddeiliaid allweddol fel consortia rhanbarthol, Estyn, LIC a Phenaeithiaid ysgolion uwchradd.
- 6.10 Rhoddwyd mwy o ystyriaeth hefyd i'r ddarpariaeth ehangach sy'n cyd-fynd â TGAU, gan gynnwys cymwysterau lefel mynediad, cymwysterau lefel 1 a chymwysterau lefel

1 a 2 amgen. Roedd sgysiau wedi digwydd gydag ysgolion arbennig a gwnaed dadansoddiad o ddata defnyddio cymwysterau.

- 6.11 Roedd cynigion ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 hefyd wedi'u cynnwys, gyda ffocws ar asesu sgiliau cyfannol fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd.
- 6.12 Roedd CC yn dechrau datblygu set o gynigion ynghylch cymwysterau cymhwysol ar lefel 1 a 2 yn Saesneg a Chymraeg.
- 6.13 Roedd CC hefyd yn ystyried yr angen am gymwysterau mewn meysydd o'r cwricwlwm nad ydyn nhw'n hawdd eu slotio i mewn i MDaPh, fel meysydd ymarferol mwy cymhwysol. Yn ystod yr ymgynghoriad nesaf, byddai CC yn ceisio nodi'r meysydd pwnc arfaethedig, yna byddai mwy o waith yn cael ei wneud o amgylch cymwysterau penodol.
- 6.14 Holodd y Bwrdd ynghylch y dull arfaethedig ar gyfer gwyddoniaeth. Cadarnhaodd OS fod rhai pryderon ynghylch cael gwared ar wyddorau unigol wedi'u mynegi yn ystod sgysiau. Dywedodd OS nad yw chwarter yr ysgolion ar hyn o bryd yn cynnig y gwyddorau ar wahân am resymau fel capasiti. Roedd CC wedi siarad â'r Gymdeithas Frenhinol Cemeg a'r Sefydliad Ffiseg a oedd ill dau yn awyddus i gael llwybr cyffredin i bob dysgwr ar lefel TGAU. Ar hyn o bryd roedd CC yn edrych ar ymchwil i ganlyniadau Safon Uwch ar gyfer dysgwyr a oedd yn ymgymryd â gwyddorau ar wahân. Ymgynghorwyd â phrifysgolion a nodwyd bod ysgolion meddygol yn hoffi ehangder cynnar, ond byddai angen sgysiau pellach wrth i fanylion y cynigion ddod yn fwy amlwg.
- 6.15 Holodd y Bwrdd, unwaith yr oedd y cynigion yn cael eu cyhoeddi, a allai fod canfyddiad nad ydyn nhw'n ddigon uchelgeisiol. Esboniodd OS ei bod yn ymddangos ar lefel uchel nad oes llawer o newidiadau, ond wrth edrych ar y manylion, gan gynnwys y dull asesu, daw'r newidiadau yn fwy amlwg. Dywedodd aelodau'r bwrdd fod cyfle i bwysleisio'r posibilïadau ar gyfer e-asesu. Byddai'r Bwrdd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y dogfennau a fyddai'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad cyn eu cyhoeddi.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd y gwaith a wnaed hyd yma a chymeradwyodd y canlynol:
- Y dull arfaethedig o asesu a gwerthuso'r llwybrau posibl a nodwyd i sicrhau TGAU newydd, cymeradwy;
 - Yr amserlen ar gyfer penderfyniad gan y Bwrdd ar y llwybr(au) a ffefrir i sicrhau'r TGAU newydd, cymeradwy.

7. Adroddiad y Cadeirydd

- 7.1 Esboniodd y Cadeirydd fod e-bost wedi'i anfon at Aelodau'r Bwrdd a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am ystod o bynciau gwahanol. Byddai'r cofnodion ar gyfer Gyfarfodydd Bwrdd Arbennig yn cael eu hystyried fel un set gyflawn.
- 7.2 Holodd y Bwrdd a oedd y Weithrediaeth yn rhagweld unrhyw Gyfarfodydd Arbennig pellach y tu hwnt i'r rhai y cytunwyd arnynt eisoes. Cadarnhaodd PB nad oedd unrhyw rai wedi'u cynllunio ar hyn o bryd, ond byddent yn cael eu galw pe bai angen. Awgrymodd aelodau'r bwrdd y gallai sesiwn friffio yn y dyfodol fod yn ddefnyddiol.

8. Adroddiad Cyllid

- 8.1 Cyflwynodd KP yr adroddiad cyllid gan nodi cysylltiad cryf rhwng eitemau a gafodd eu gohirio yn y cynllun gweithredol a'r meysydd gwariant 'mewn perygl'. Nodwyd bod y Pwyllgor Adnoddau wedi ystyried effaith pandemig COVID 19 ar y cynllun gweithredol yn fanwl ac fe'i sicrhawyd ei fod yn cael ei reoli. Cadarnhaodd KP fod y cynllun ariannol tymor canolig yn dal yn ddilys er y cydnabuwyd y byddai gan Lywodraeth Cymru heriau ariannol i'w rheoli yn y flwyddyn i ddod.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol.

9. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 9.1 Esboniodd PB fod CBAC wedi rhedeg y modelau ar gyfer y mwyafrif o gymwysterau Safon Uwch a Safon UG. Roedd rhai materion gweithredol wedi codi ac yn cael sylw. Roedd un maes yn gysylltiedig â phwysoliad bach canolfannau tuag at y GAC o fewn y model Perfformiad Canolfannau Uniongyrchol ("DCP") ar gyfer cymwysterau Safon UG. Roedd CBAC wedi archwilio a ellid addasu paramedrau niferoedd ymgeiswyr i leihau chwyddiant.
- 9.2 Mater arall oedd sut i drin anghysondebau sylweddol rhwng y radd GAC a'r canlyniad a gyfrifwyd, er enghraifft gradd GAC o U a gradd uwch wedi'i chyfrifo neu radd safon UG uwch. Nodwyd y gallai CBAC atal dyfarniad (byddai gradd 'Q' neu ymholiad yn cael ei chyhoeddi) a chynnal gwiriadau pellach. Byddai CC yn cymryd golwg ar hydrinedd dull o'r fath pe bai pryderon yn cael eu codi.
- 9.3 Cadarnhaodd PB y bwriadwyd i ddatganiad cyffredin gael ei ryddhau gan yr holl reoleiddwyr. Byddai datganiad cyffredin hefyd yn cael ei ystyried i ddarparwyr Addysg Uwch i roi hyder iddynt wneud eu penderfyniadau cadarnhau; roedd hwn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a byddai'r ddau ddatganiad yn cael eu rhannu ag aelodau'r Bwrdd ar ôl cytuno arnynt.

- 9.4 Atgoffodd PB y Bwrdd fod CC wedi sefydlu Fframwaith Rheoleiddio Arbennig ar gyfer Haf 2021 i ganiatáu i CBAC wneud addasiadau addas i asesiadau - roedd hwn wedi'i gyhoeddi y diwrnod blaenorol.

Roedd CBAC wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer addasiadau i TGAU (i'w cyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf) ac roeddent wrthi'n ymgynghori ar gynigion ar gyfer Safon Uwch (i'w cyhoeddi ddechrau mis Awst)

- 9.5 Dywedodd PB na chodwyd unrhyw bryderon mawr mewn perthynas â Chymwysterau Galwedigaethol ar gyfer Haf 2020.
- 9.6 Holodd y Bwrdd a fyddai'r Gyfres Gaeaf arfaethedig ar gyfer 2020 yn mynd yn ei blaen. Cadarnhaodd PB y byddai hyn yn dibynnu ar sefyllfa lechyd y Cyhoedd ar y pryd, ond y bwriad oedd bwrw ymlaen fel y cynlluniwyd ar gyfer asesiadau Tachwedd ac Ionawr. Nid oedd unrhyw addasiadau wedi'u cynllunio ar gyfer yr asesiadau hyn, yn enwedig ar gyfer cyfres mis Tachwedd, a oedd yn y cyd-destun presennol yn cael ei ystyried yn gyfle i 'ail-sefyll' yn bennaf.
- 9.7 Holodd y Bwrdd a oedd unrhyw feddwl wedi'i roi i reolau clo rhannol lle gallai gwahanol rannau o Gymru fod o dan lefelau cyfyngu gwahanol. Cadarnhaodd PB fod y materion hyn yn cael eu hystyried er y byddai'r flaenoriaeth yn y tymor byr yn aros ar gyluniadau haf 2020.
- 9.8 Soniodd PB am CBE a'r gwaith datblygu ar gyfer y cymwysterau newydd. Mae'r gwaith i gymeradwyo'r cymhwyster Sylfaen erbyn Medi/Hydref 2020 yn dal i ddilyn yr amserlen ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, roedd materion wedi codi gyda dealltwriaeth y corff dyfarnu o'r gofynion ar gyfer y cymhwyster Dilyniant a Phrentisiaeth a fyddai'n arwain at oedi hyd Mawrth/Ebrill 2021 ar gyfer cymeradwyaeth yn hytrach na Hydref 2020. Byddai angen i CC nawr edrych a ddylid bwrw ymlaen â'r addysgu cyntaf ym mis Medi 2021 neu symud i Fedi 2022.

10. Cyfres Hydref 2020

- 10.1 Esboniodd JR mai pwrpas yr eitem oedd ailedrych a thrafod a ddylai Cyfres Hydref ddiagnosis a beth fyddai'r buddion a'r risgiau.
- 10.2 Cadarnhaodd JV farn polisi LIC y dylai addysgu a dysgu fod yn flaenoriaeth ar gyfer tymor yr hydref ac na ddylid cynnal cyfres hydref. Roedd y Gweinidog Addysg hefyd wedi bod yn awyddus i osgoi anfantais i ddysgwyr o ganlyniad i wahanol brofiadau dysgu yn ystod y cyfnod y bu ysgolion ar gau. Nodwyd hefyd bod cyfres arholiadau hydref ar y gweill yn Lloegr, ond nid yn awdurdodaethau eraill y DU.
- 10.3 Holodd y Bwrdd y cyfathrebiad o ran sut y byddai'r penderfyniad yn cael ei gyfleu a beth fyddai'n cael ei wneud i sicrhau ei bod yn amlwg y gellid gwahaniaethu rhwng y camau a'r penderfyniad a wnaed yn Lloegr. Byddai JR yn edrych i mewn i'r Cwestiynau Cyffredin ar wefan CC i gadarnhau eu bod yn adlewyrchu sefyllfa'r polisi

yn gywir. Roedd gan LIC hefyd adran ar eu gwefan ar gyfer Cwestiynau Cyffredin a byddai CC yn sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd.

- 10.4 Nododd y Bwrdd eu pryderon ynghylch cyfathrebiadau, gan nodi y byddai'n fuddiol rhyddhau cymaint o wybodaeth â phosibl ac mor gynnar â phosibl fel bod dysgwyr yn barod. Esboniodd PB fod y penderfyniad i beidio â chael Cyfres Hydref wedi'i wneud gyda'r Gweinidog Addysg a CBAC ym mis Mawrth ac arwyddion y byddai Lloegr yn ystyried Cyfres Hydref wedi'u gwneud y diwrnod cynt yn unig.
- 10.5 Ystyriodd y Bwrdd yn helaeth a ddylid cynnal Cyfres yr Hydref yn 2020, gan bwysu a mesur manteision ac anfanteision y ddau ganlyniad, risgiau a'r effaith ar ddysgwyr. Yn dilyn ystyriaeth, barn fwyafrifol y Bwrdd oedd cadarnhau'r penderfyniad presennol i beidio â chael Cyfres Hydref.

Crynodeb:

- i. Penderfynodd y Bwrdd gyda mwyafrif i beidio â gofyn am Gyfres Hydref ar gyfer 2020.

11. Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 11.1 Rhoddodd KSD gyflwyniad i'r Bwrdd ac amlygodd y gwaith a wnaed hyd yma a beth fyddai'r camau nesaf. Bu tri cham ers mis Mawrth 2020, gyda phob cam yn adeiladu tuag at y garreg filltir nesaf, gan sicrhau fod cyfathrebu a chynnwys mor berthnasol â phosibl.
- 11.2 Bu KSD yn trafod pob un o'r tri cham, gan dynnu sylw at y negeseuon allweddol a'r ffocws. Roedd cyfathrebu a sut yr ymgwymerwyd ag ef yn bwysig yn ystod cyfnod mor anodd. Roedd rhoi gwybodaeth i randdeiliaid yn rheolaidd a chydabod gwaith caled pawb dan sylw wedi bod yn rhan allweddol o'r cyfathrebu. Y ffocws drwyddo draw oedd 2020, ond rhoddwyd ystyriaeth hefyd i edrych ymlaen at 2021. Rhan hanfodol o'r cyfathrebu oedd sicrhau dysgwyr y byddai'r cymwysterau a ddyfarnwyd iddynt yn 2020 yr un gwerth ag unrhyw flwyddyn arall.
- 11.3 Holodd y Bwrdd gyfranogiad CC mewn cyfleoedd ar y cyfryngau rhwng nawr a diwrnod y canlyniadau i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y dylai dysgwyr ei ddisgwyl. Nodwyd bod sesiynau briffio cynhwysfawr ar y gweill.
- 11.4 Cofnododd y Bwrdd ei ddiolch i Kate Stokes Davies am ei gwaith fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

12. Unrhyw Fater Arall

- 12.1 Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.